

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Dewi Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Medi'r 2il 2014

Presennol: Dewi Jones (Cadeirydd), Alwyn Roberts (is gadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Heledd Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Alan Jones Evans (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

1324 Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriad Arwel Lloyd Jones. Ar ran y Cyngor, llongyfarchodd y Cadeirydd Gwmni Drama'r Pandy am ennill y wobwr gyntaf a Chwpan Gwynfor am berfformio drama fer yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Shir Gâr eleni. Llongyfarchodd hefyd Alwyn E Jones am ennill Tlws yr Actor Gorau. **(Gweithredu: Clerc)**

1325 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1326 Nid oedd datganiadau buddiant.

1327 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Gorffennaf 1af 2014.

1328 Nid oedd materion yn codi o'r Cofnodion nad oedd eisoes ar yr Agenda

1329 Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir. Dywedodd Alan Jones Evans ei fod wedi treulio cryn amser dros yr haf ar fater dyfodol y gwasanaeth sinema a Neuadd Buddug. Roedd yn siomedig fod y cais am grant ar gyfer offer digidol wedi ei dynnu nôl heb drafodaeth leol. **Cytunwyd** i anfon llythyr o gefnogaeth at yr Aelod Cabinet John Wynn Jones i gadw'r gwasanaeth sinema, cadw trefniadau interim yn Neuadd Buddug ac i ofyn am amser i'r gymuned ymateb i'r her. **(Gweithredu: Clerc)**

1330 Materion Eiddo'r Cyngor

- i. Y Fynwent newydd:
 - a. **Cytunwyd** i ofyn i arbenigwr lleol am bris trwsio'r wal. Gofynnwyd i'r Swyddog Ariannol edrych mewn i'r posibilrwydd o hawlio oddi ar yr yswiriant. **(Gweithredu: Karl Jones, Swyddog Ariannol)**
 - b. **Cytunwyd** i wneud cais am arian cyfalaf ar gyfer paentio'r railings wrth y maes parcio ac am drwsio'r wal. **(Gweithredu Swyddog Ariannol)** Darllenodd Alan Jones Evans llythyr gan yr Aelod Cabinet Gareth Roberts yn mynegi na ellir parhau gyda'r drefn o ddigolledu mynwentydd Meirionnydd oherwydd y wasgfa ariannol.
 - c. Mynegwyd parodrwydd i gyfarfod gyda Chyngor Cymuned Llandderfel i drafod cydweithio er mwyn lleihau costau parthed mynwentydd. Enwebwyd Bethan Edwards a Huw Antur i gynrychioli'r Cyngor. **(Gweithredu: Clerc)**

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Dewi Jones

- ii. Toiledau: derbyniwyd gwybodaeth gan E Lloyd Jones, Rheolwr Trethi Cyngor Gwynedd, fod bil dreth y toiledau wedi ei diddymu.

Adroddodd y Cadeirydd fod angen uwchraddio'r toiledau a chytunodd Alan Jones Evans i drafod gyda'r Swyddog Adfywio Bro am y posibilrwydd o ymgeisio am grant i'r perwyl hwn. (**Gweithredu: Alan Jones Evans**)

Derbyniwyd gwybodaeth fod lladrad wed bod o'r bocs yn nhoiledau'r dynion er bod yr arian yn cael ei gasglu bob dydd.

1331 Materion ariannol

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf. Derbyniwyd sieciau parthed y fynwent a derbyniwyd y Praesept. Cytunwyd i roi'r arian wrth gefn mewn cyfrif a fydd yn ennill llog, yn unol â rheolau Llywodraeth Cymru. (**Gweithredu: Swyddog Ariannol**)
- ii. Cytunwyd i wneud taliadau'r mis a rhoddwyd hawl i dalu bil Nwy Prydain pan ddaw.

1332 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned

- i. Mae Alan Jones Evans wedi sicrhau y bydd arwydd yn cael ei osod ar ben Plas yn Ddol yn cyfeirio ymwelwyr at Langywer a Llyn Tegid, Y Bala.
- ii. Bydd y banc ail-gylchu papur yn cael ei symud yn fuan. Mae darpariaeth casglu papur wythnosol ar gael o ddrws tŷ erbyn hyn ac mae'r banc papur yn cyfyngu ar safle parcio'r Neuadd.

1333 Partneriaeth Penllyn: rhoddodd y cynrychiolwyr adroddiad ar ddatblygiadau dros yr haf: bydd Agoriad Swyddogol Canolfan Henblas ar 12/9/1 ac estynnwyd gwahoddiad i bob aelod o'r Cyngor. Mae'r gwaith adeiladu wedi ei orffen erbyn hyn a rhai o'r tenantiaid wedi symud mewn. Sicrhawyd y bydd llawer o ddefnydd gan wasanaethau cynghori a chefnogi o'r ystafell breifat a adweinir fe "Llafar".

Cafwyd cyfarfod gyda Dilwyn Owen Williams yn ystod yr haf i drafod y posibilrwydd o ymestyn cyfrifoldebau a gwasanaethau Partneriaeth Penllyn. Bydd yn parhau i roi sylw i hyn ac yn y cyfamser roedd yn gobeithio derbyn cynigion gan y Cynghorau Cymuned ar sut y gall Partneriaeth Penllyn gefnogi Gwynedd i gynnal gwasanaethau, megis cefnogaeth i gadw pobl oedrannus yn eu cartrefi. Cytunwyd i drafod syniadau yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

1334 Gohebiaeth:

Llywodraeth Cymru: ymgynghoriad ar ail-drefnu llywodraeth leol – diwrnod cau 1/10/14. Cytunwyd i ymateb trwy fynegi - gan fod uno Cynghorau Sir yn anochel – ei bod yn bwysig fod llais gref, cyllid, pwerau ac adnoddau gan y gymuned leol. Mae Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yn gweld y datblygiad hwn fel cyfle, nid fel bygythiad. Mae angen i bobl leol cael mwy o ran yn y darparu dyddiol, ac felly mae angen y gefnogaeth a'r adnoddau i wneud hyn.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Dewi Jones

Wrth ymateb, mae angen cyfeirio at waith Partneriaeth Penllyn.
(Gweithredu: Clerc)

Parc Cenedlaethol Eryri:

- Derbyn gwybodaeth am ganiatâd a roddwyd i ychwanegu estyll derw yn y Prys Mawr.
- NP5/71/E450 Cymeradwywyd cais i ail-adeiladu gwifren drydan rhwng Dolhendre Uchaf a Dolhendre Isaf
- NP5/71/449 Cymeradwywyd cais Cynllun Trydan Dŵr ar Afon Dwrnudson, Llechwedd fwyalchen
- NP5/71/LB149C, NP5/71/LB149D, NP5/71/LB149E – Cymeradwywyd cyfres o geisiadau yn ymwneud ag amrywio caniatâd sydd eisoes yn bodoli ar adeiladau fferm, Fferm Glan Llyn (adeiladau cofrestredig)

Gwynedd:

- Derbyniwyd Newyddlen Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn

Un Llais Cymru:

- Nid oedd yn gyfleus i neb i fynychu'r Gynhadledd Flynyddol yn Llanfair ym Muallt ar 4/10/14
- Derbyniwyd rhaglen hyfforddiant

Erail: Derbyniwyd cylchgrawn Chwarae Cymru

Heddlu:

- Nodwyd gwahoddiad i ddiogelu cofebion
- Nodwyd gwahoddiad i wneud cais am grant ar gyfer cynllun atal troseddau

Dymunwyd yn dda iawn i Rhodri Jones ar achlysur ei briodas.

Amser gorffen: 9.15pm